Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Santes Fair

**Y Caban**
**Ysgol Santes Fair**
**Caergybi**
**Isle of Anglesey**
**LL65 1TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Santes Fair

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Santes Fair |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Alexandria McGinn a Susan McGinn |
| Person â gofal | Alexandria McGinn a Susan McGinn |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 tan 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:55y.b. – 11:00y.b. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolwg cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 26/06/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Gwella trefniadau arsylwi ac asesu er mwyn adnabod deilliannau plant yn eu medrau

A2 Mireinio trefniadau hunanwerthuso er mwyn adnabod meysydd i'w gwella sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae'r plant yn wir ganolbwynt i'r lleoliad ac mae ganddynt lais cryf iawn ar draws bob agwedd o'u profiadau. Maent yn cael cyfleoedd helaeth i wneud dewisiadau, sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, mae'r plant yn cael mynd i'r dre i ddewis a prynu eu ffrwythau ar gyfer byrbryd yr wythnos. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant gyfathrebu eu dymuniadau a gwneud cysylltiadau yn y gymuned leol. Mae bron bob plentyn yn gwneud penderfyniadau cwbl wybodus ynglŷn â'u chwarae, wrth iddynt symud o gwmpas yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn gwneud defnydd ardderchog o fynediad rhydd i'r ardaloedd yn yr awyr agored ac yn symud rhwng y ddwy ardal yn rhwydd.

Mae gan blant ymdeimlad cryf o berthyn i'r lleoliad ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion a threfniadau dyddiol. O ganlyniad, maent yn ymdopi'n eithriadol o dda wrth wahanu gyda'u rhieni/gofalwyr. Mae'r plant yn cyrraedd yn hapus a hyderus ac mae cyfarchiadau cyfarwydd ymarferwyr yn eu helpu i ddatblygu cysylltiadau. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau eu hunain am beth sydd yn digwydd yn ystod y dydd gan ddilyn eu diddordebau a'u hoffterau. Maent yn mynegi eu teimladau gan wneud defnydd annibynnol o'r wal deimladau a'r drychau sydd ar gael iddynt. Mae bron bob plentyn wedi datblygu perthynas agos iawn â'r ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu bodd yn trosglwyddo tegan o adref i ofal yr ymarferydd gan rhoi sicrwydd a chwtsh i'r tegan cyn ei adael. Mae'r plant yn gwenu'n hyfryd ac yn ymfalchïo ar ôl derbyn canmoliaeth am roi blodau wedi eu gosod mewn clai i ymarferydd.

Mae bron bob plentyn yn datblygu sgiliau rhyngweithio da iawn ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn cymryd rhan yn aeddfed mewn gweithgareddau grŵp, gan wrando ar eraill a chymryd tro. Maent yn deall cysyniad rhannu yn dda iawn, ac yn dangos gallu cynyddol i gymryd eu tro a cyd-chwarae yn effeithiol iawn. Er enghraifft, wrth chwarae yn y dŵr, mae'r plant yn aros eu tro i ddefnyddio'r potiau o wahanol liwiau ac yn rhoi lle i eraill ymuno gan rannu'r adnoddau yn deg. Maent yn hyderus iawn wrth rhannu adnoddau gyda ymwelwyr er mwyn eu cynnwys yn eu chwarae. Mae'r plant yn dangos parch uchel iawn at eiddo ac yn defnyddio adnoddau'n hynod o ofalus. Wrth ddefnyddio'r teganau trydanol siarad, maent yn sicrhau bod eu ffrindiau i gyd yn cael cyfle i'w defnyddio. Maent yn defnyddio'r teganau yn effeithiol iawn yn ystod y sesiwn i gyfathrebu gyda'u ffrindiau neu ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant tuag at eu chwarae. Maent yn archwilio'u hamgylchedd yn gwbwl annibynnol, ac yn dilyn eu diddordebau'n rhydd, gan lwyddo i fagu hyder wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn canfod bocs o offer cerddoriaeth ac yn eu rhannu'r fwriadus ymhlith ymarferwyr a'u ffrindiau er mwyn creu cerddorfa. Maent yn ymgysylltu'n llawn yn eu gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnodau cynyddol o amser. Er enghraifft, mae'r plant yn canolbwyntio am amser cynyddol i yrru'r car trydanol o gwmpas yr ardal allanol a thrwy bibell hir. Wrth wneud hyn mae'r plant yn

symud deunyddiau ac offer er mwyn eu cynnwys ar y cwrs a hwyluso’r rhannau anodd y daith.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol effeithiol iawn. Mae’r plant yn cymryd cyfrifoldeb arbennig am eu hylendid personol gan olchi dwylo’n aml yn y mannau golchi sydd ar gael iddynt yn y gwahanol ardaloedd. Maent yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol yn dda iawn yn ystod amser byrbryd drwy dywallt eu diod ac o dan oruchwyliaeth. Maent yn torri eu ffrwythau a thrafod y risgiau sy'n dod yn sgil defnyddio cyllell. Mae’r plant yn teimlo’n gyfforddus iawn yng nghwmni’r ymarferwyr sy’n eu cynorthwyo i fentro a datblygu sgiliau annibynnol. Er enghraifft, mae plentyn sydd yn methu torri ffrwyth caled yn hyderus i ofyn am help ac yn sicr gan wybod bydd yr ymarferydd yn rhoddi arweiniad i’w alluogi i gwblhau’r dasg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-werth plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn gan gadw at arferion dyddiol trylwyr iawn y lleoliad. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Maent yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau sydd yn cynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid effeithiol i helpu atal lledaeniad germau.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn cadw’n iach drwy gynnig byrbryd iachus a rhoi cyfleodd i’r plant wneud penderfyniadau am yr hyn maent yn fwyta ac yfed. Maent yn sicrhau bod y plant yn deall y pwysigrwydd o hylendid personol gan gymryd mantais yn gyson ar gyfleodd naturiol, megis annog y plant i frwsio dannedd a gosod y bwrdd i snac. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad at gyfleusterau o ansawdd uchel yn yr awyr agored sy’n eu hysbrydoli i fod yn greadigol ac egnïol. Maent yn sicrhau fod plant yn dysgu am gadw’n ddiogel tra yn y lleoliad ac allan yn y gymuned. Er enghraifft, gwahoddir yr heddlu i’r lleoliad a threfnir ymweliadau at wylwyr y glannau i ddysgu am ddiogelwch y môr. Rhoddir cyfleodd cyson i’r plant brofi’r hyn sydd gan yr ardal leol i gynnig ac mae ymarferwyr yn defnyddio’r cyfleodd yma i ddysgu’r plant am fod yn ddiogel wrth fynd am dro.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Mae ganddynt berthynas arbennig o agos a chynnes gyda’r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. O ganlyniad, mae hyn yn cymell y plant i ymddwyn yn hynod gwrtais a dangos parch. Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi ymddygiad yn effeithiol ac yn gosod esiampl ragorol o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Defnyddir iaith gadarnhaol gyda'r plant

sy’n hyrwyddo ymddygiad da ac mae ymarferwyr yn cefnogi’r plant yn briodol drwy ddangos diddordeb gwirioneddol ynddynt. Mae ymarferwyr yn hwyluso datblygiad personol y plant yn effeithiol iawn drwy eu hannog i helpu gyda thasgau syml. Er enghraifft, wrth gyrraedd yn y bore maent yn cefnogi’r plant i roi eu heiddo yn y llefydd cywir gan eu llongyfarch wrth iddynt wneud. O ganlyniad mae plant yn trosglwyddo’u sgiliau ac yn dangos hyder arbennig wrth ymgymryd â thasgau annibynnol eraill. Mae ymarferwyr yn diolch i’r plant yn gyson gan ddangos cynhesrwydd a pharch yn eu cyflawniadau. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol dros ben ar ddatblygiad hunanhyder y plant a’u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd.

Mae perthynas gryf ac annwyl iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn casglu gwybodaeth gyson amdanynt er mwyn sicrhau bod dymuniadau a hoffterau’r plant yn cael blaenoriaeth. Mae ymarferwyr yn dangos diddordeb diffuant yn sgyrsiau a gallu’r plant ac yn gwrando’n ymatebol arnynt, gan ddangos caredigrwydd. Mae ymarferwyr yn addasu gweithgareddau’n wych i ddiwallu anghenion a diddordebau unigol y plant. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr wedi ymateb yn llwyddiannus i ddiddordebau’r plant am y gwasanaeth tân trwy gynnig profiadau dysgu a chwarae gan gynnwys ymweld â’r orsaf dân leol. Maent yn cynnig profiadau helaeth i’r plant er mwyn ymestyn eu profiadau a tanio eu dychymyg er enghraifft ymweliadau amrywiol i’r amgueddfa fôr ac i’r galeri gelf leol.

Mae ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol plant yn fwriadus. Maent yn defnyddio strategaethau penodol er mwyn cefnogi anghenion plant unigol yn eithriadol o effeithiol. O ganlyniad mae bob plentyn yn llwyddo ac yn teimlo yn hollol gartrefol yn ei amgylchedd dysgu. Mae ymarferwyr yn cymryd camau mewn modd amserol ac yn gweithio gydag asiantaethau allanol yn bwrpasol, gan wneud defnydd effeithiol o strategaethau a chyngor. Mae ymarferwyr yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson i drochi ac atgyfnerthu patrymau iaith gyda’r plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn dechrau ystyried egwyddorion a chynnwys Cwricwlwm i Gymru ac yn gweithredu dulliau cynllunio addas sy’n adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y plant. O ganlyniad, mae eu gallu i addasu'r gweithgareddau a dilyn trywydd y plant yn datblygu’n dda. Mae ymarferwyr yn ystyried diddordebau’r plant wrth gynllunio, gan ddarparu ystod dda o adnoddau addas i’w cefnogi. Mae hyn yn ysgogi brwdfrydedd ac ymglymiad y plant yn eu gweithgareddau yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd maent wedi addasu'r gornel safle adeiladu yn dilyn brwdfrydedd plant mewn gwaith ar y ffordd.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan. Maent yn gosod llyfrau darllen ar draws yr ardaloedd sy’n cyd-fynd gyda’r profiadau dysgu, sydd hefyd yn ysbrydoli plant i farcio. Maent yn amgylchynu’r plant gydag arwyddion a geirfa sy’n

atgyfnerthu eu hadnabyddiaeth o lythrennau cyfarwydd, er enghraifft maent yn adnabod B wrth sylwi ar yr arwydd y Tŷ Bach Twt. Darperir teleffonau symudol lle caiff y plant gyfle pwrpasol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu wrth ffonio mam ac mae'r gegin fwd yn sbarduno sgyrsiau am gacennau lafant.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu annibyniaeth plant yn dda ac yn eu hannog i roi cynnig arni yn gyson. Er enghraifft, maent yn hybu plant i dorri eu ffrwyth adeg snac sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder a'u medrau corfforol mân. Caiff eu medrau corffol mawr eu cefnogi ymhellach wrth iddynt lywio eu hunain trwy offer dringo. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerth chweil i'r plant gymryd tro. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau digidol y plant yn dda iawn ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ddefnyddio offer digidol. O ganlyniad, mae'r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer gan gynnwys ceir trydanol, llechen electroneg a ffônau symudol yn hyderus.

Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a sut i ofalu amdano yn dda trwy gynnig cyfleoedd iddynt ofalu am anifeiliaid megis pysgodyn aur y lleoliad, magu cywion bach a gwylio pili pala yn deor allan o gocŵn. Ar y cyfan mae ymarferwyr yn cwestiynu'n briodol ac, yn yr arfer orau, yn manteisio ar gyfleoedd i annog plant i feddwl.

Mae'r ymarferwyr yn dathlu Cymreictod y plant yn briodol trwy ganu caneuon a rhigymau Cymreig, chwarae amrywiaeth o gerddoriaeth Cymreig cefndirol a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn manteisio ar gyfleoedd addas i feithrin medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn dysgu am y ffordd y mae pobl yn debyg i'w gilydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt, er enghraifft wrth chwarae yn y salon trin gwallt.

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant ac yn hyrwyddo eu hiaith yn effeithiol iawn. Maent yn dechrau meistroli'r grefft o wybod yn union pryd sy'n addas i ymyrryd ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddatblygu medrau'r plant mewn modd gwbl naturiol. Maent yn darparu amgylchedd ysgogol a heriol, tu mewn a thu allan, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad plant at eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn symud yn briodol o gwmpas yr ardaloedd i arsylwi ar blant yn eu dysgu a'u chwarae. Maent yn ysgogi diddordeb a chwilfrydedd y plant wrth gyd-chwarae ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ryngweithio a chynnal diddordeb. Er hyn, nid ydynt bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i gwestiynu'r plant yn effeithiol er mwyn symud y dysgu a'r chwarae yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu anghenion y plant yn briodol wrth iddynt gychwyn yn y lleoliad, er nid ydynt, hyd yma, yn trafod eu canfyddiadau yn bwrpasol gyda rhieni. Maent yn arsylwi arnynt yn rheolaidd er mwyn adnabod eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn effeithiol. Er hyn, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r wybodaeth a'u dealltwriaeth am ddatblygiad plant wrth gynllunio gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau mewn meysydd penodol gan gynnwys rhifedd a llythrennedd cynnar.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn rhoi blaenoriaeth i asesu risg yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan ac i weithgareddau penodol. Mae hyn yn cael

effaith bositif iawn ar ddatblygiad plant drwy eu galluogi i gymryd risgiau ac ymgymryd â phrofiadau newydd, er enghraifft, wrth arbrofi gydag offer yn y safle adeiladu. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau derbyn ymwelwyr ac ar gyfer derbyn a chasglu plant ar ddiwedd sesiynau yn drwyadl. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd ac o ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad ac offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae cyfleusterau da ar gael i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol ac mae'r rhain yn sicrhau a pharchu eu preifatrwydd.

Mae ymarferwyr wedi creu amgylchedd ddysgu ysgogol a symbylus. Maent yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sydd wedi ei gynllunio a'i osod yn ofalus i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u dysgu. Er enghraifft, tu allan, ceir strwythur corfforol mawr i'r plant ddatblygu sgiliau dringo a sied fach glyd er mwyn iddynt gael amser tawel i ganolbwyntio ac ymgolli eu hunain yn eu chwarae dychmygus. Mae'r ardaloedd tu mewn a thu allan wedi eu trefnu'n fwriadus i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un weithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn addasu'r ddarpariaeth yn gyson gan sicrhau ardaloedd dysgu diddorol a phwrpasol sydd yn ennyn chwilfrydedd a diddordeb y plant yn eithriadol o dda. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw'r gornel tylwyth teg a'r sedd stori sy'n sbardun arbennig i ennyn ddiddordeb plant mewn llyfrau ac i'w denu i ddarllen.

Mae'r ardaloedd chwarae yn sbarduno dychymyg y plant yn wych. Er enghraifft, maent yn datblygu eu dychymyg ym myd bach y tylwyth teg trwy ymgolli eu hunain mewn ardal sydd wedi ei gynllunio'n fwriadus ar gyfer chwarae rôl a chyfathrebu. Mae dillad gwisgo fyny a drychau yn rhoi cyfleoedd arbennig i blant ddatblygu gwell adnabyddiaeth o'u hunain wrth wisgo i fyny. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig profiadau gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, ac mae arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, mae lluniau teuluoedd y plant yn eu croesawu i'r lleoliad ac eraill yn atgoffa'r plant o'u hymweliadau amrywiol yn y gymuned. Mae corneli cysurus wedi eu trefnu'n bwrpasol er mwyn cynnig cyfleoedd i blant orffwys a chael amser tawel i fyfyrio drwy edrych ar lyfrau a chanolbwyntio. Caiff yr amgylchedd ei wella ymhellach gan ystod o adnoddau dychmygus go iawn megis bocsys a tuniau bwyd gwag, offer trin gwallt a gemwaith. Mae nifer o'r adnoddau yma yn gyfarwydd iawn i'r plant ac yn ysgogi eu chwarae dychmygus yn eithriadol o dda.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr amgylchedd. Maent yn sicrhau bod gan blant fynediad at ystod eang a chyffrous o adnoddau ac offer naturiol a phwrpasol i feithrin eu sgiliau datblygu cyffredinol. Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. Er enghraifft, mae'r plant yn estyn cregyn a mynd a nhw i'r ardal dywod er mwyn cyfoethogi eu chwarae yno. Mae eraill yn mynd a'r bagiau stori a'r pypedau i'r ardal allanol ac yn penderfynu golchi'r cymeriadau. Mae hyn yn cefnogi diddordeb y plant mewn straeon ac yn eu galluogi i chwarae rôl yn ddychmygus ar

draws y lleoliad. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol ac maent yn gwneud penderfyniadau pwrpasol drostynt eu hunain.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hon yn seiliedig ar ddarparu gofal ac amgylchedd ddysgu diogel a symbylus o safon uchel er mwyn i'r plant gael profiadau arbennig a chyfleoedd i ddatblygu drwy chwarae. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau ac yn cydweithio'n effeithiol mewn amgylchedd hapus. Mae yma ethos gofalgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gan arweinwyr drefniadau priodol ar gyfer arfarnu'r ddarpariaeth. Maent yn canfod barn a syniadau priodol oddi wrth ymarferwyr, rhieni a swyddogion awdurdod lleol a mudiadau cefnogi. Mae arweinwyr yn awyddus i wella'r ddarpariaeth ac yn ymateb yn briodol i'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent wedi adnabod a gweithredu ar yr angen i wella'r ddarpariaeth drwy adeiladu dosbarth allanol er mwyn ymestyn medrau'r plant yn yr ardal chwarae allanol. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n canolbwyntio'n ddigon penodol ar gynllunio gwelliannau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau a medrau'r plant.

Mae ymarferwyr yn derbyn cyfleoedd pwrpasol i fynychu hyfforddiant. Mae yma ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ac mae arweinwyr yn awyddus i sicrhau fod bob ymarferydd yn derbyn cyfleoedd cyfartal ac yn dysgu ar y cyd. O ganlyniad, mae yma gyd-ddealltwriaeth dda o ddisgwyliadau sy'n sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd blynyddol i ymarferwyr adolygu eu perfformiad a'u targedau unigol. Mae cyfleoedd ffurfiol mewn cyfarfodydd wythnosol, ac yn anffurfiol yn ystod yr wythnos, i ymarferwyr rannu eu syniadau gydag arweinwyr.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn rheoli adnoddau yn eithriadol o dda. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Mae gan ymarferwyr swydd ddisgrifiadau a chymwysterau perthnasol i weithio gyda phlant ifanc.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o bartneriaethau i ddarparu amrediad cyfoethog o brofiadau sy'n datblygu chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â siop anifeiliaid anwes i brynu pysgodyn aur ac yn dysgu plant am yr amgylchedd lleol drwy ymweliad â'r traeth.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas dda iawn gyda'r rhieni/gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ddiddordebau a digwyddiadau yn ystod trafodaethau boreol, er prin yw'r cyfleoedd i drafod datblygiad y plant yn fwy ffurfiol. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth bellach ar ap electroneg sy'n cyfleu llwyddiannau'r plant yn ogystal â rhannu unrhyw bryder, sylwadau yn ogystal â gwybodaeth allweddol am eu gofal. Mae bob rhiant/gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw bryder sydd ganddynt ac yn falch o'r cyfleoedd dyddiol i drafod gyda ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r cyllid y mae'n ei dderbyn, gan gynnwys y Grant Datblygu Blynyddoedd Cynnar ac fe'i defnyddir yn briodol i brynu adnoddau amrywiol fel cegin fwd ac offer adeiladu. Mae’r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a deilliannau’r plant.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/08/2024